

Llanast: Oriel Mission, Abertawe

Since all humans are beasts of waste, we inscribe waste in our mental and bibliographic record, allowing the passing of time to recall memories, dreams and experiences that would otherwise have been forgotten. Waste intimacies bring buried emotions to the surface and offer the possibility to mourn and heal with objects ‘belonging’ to the past. (Picard, *et al.*, 2023, p. 3)

Bwriad yr arddangosfa *Llanast* yw archwilio sut rydym yn rhyngweithio efo gwrthrychau, a'r ystyron rydym yn cysylltu â hwy, yn enwedig mewn byd lle mae gwastraff yn pentyrru o'n cwmpas a'r grym masgynhyrchiad yn gryf. Rhoddir ystyr i wrthrychau gan y rhai sy'n piau nhw - mae'r casgliad gwaith yn yr arddangosfa hon yn archwilio'r ddeialog sy'n cael ei chynhyrchu tra bod gwrthrychau yn symud o berchennog i berchennog. Wrth greu lluniau o wrthrychau gwastraff, mae'r ddeialog yn newid eto. Trafododd Neil Postman ffotograffiaeth fel “pseudo-context,” sef; “a structure invented to give fragmented and irrelevant information a seeming use” (1987, p. 77). Mae ysbwriel - nwyddau cartref, bwyd wedi pydru, pagedi plastig a gwrthrychau gwrthodedig (yn aros am berchnogion newydd mewn cist ceir neu siopau jync), ar eu pennau eu hunain yn ddibwys, ond mae eu cofnodi trwy'r cyfrwng ffotograffiaeth yn ffurfio adroddiadau newydd, sy'n taflu goleuni ar y math o bobol sy'n eu defnyddio ac yn eu taflu nhw. Yn bennaf, mae'r arddangosfa yn ceisio ateb y cwestiwn: a oes modd dod o hyd i brydferthwch yn y llanast hwn sy'n deillio o fyd cynhyrchu, consymsiwn a gwastraff?

Adeiladwyd Oriel Mission yn 1868 (Mission Gallery, 2024), fel eglwys yn wreiddiol ac felly gwelir gwaith y ffotograffwyr: Zoe Leonard, Keith Arnatt, Motoyuki Daifu a Daisuke Yokota mewn gyd-destun arbennig ynglŷn ag hanes yr adeilad. Mewn ffordd, nid yw swyddogaeth yr adeilad wedi newid llawer lot – aeth pobl i'r lle hwn am arweiniad, ysbrydoliaeth ac i chwilio am ystyr mewn bywyd, yr un rhesymau sydd gan bobl dros fynd i orielau celf. Mae'r ail-adfeddiant hyn yn fwyaf amlwg yng ngwaith Daisuke Yokota. Mae ei domen o luniau, sef lluniau wedi eu llosgi, yn chwalu dros y man lle oedd yr allor arfer sefyll. Bellach, mae'r man addoli canolog hwn yn cael ei gorthrymu gan llifeiriant sy'n mynegi ein bod ni heddiw yn dibynnu ar y llwyth o delweddu o'n cwmpas (ac yn eu addoli nhw?).

This display of burnt matter reflects on the mass of visuals we are confronted with on a daily basis, and the increasingly desensitised way in which they are mechanically absorbed and disregarded. (Aesthetica Magazine, 2017)

Mae ei leoli fan yma yn ychwanegu at y neges gan ddangos ein dibyniad ar ddelweddaeth yn ein diwylliant modern, ac ar yr un pryd, amlinellu ein difaterwch i'r hyn a welwn, yn trawsnewid gwastraff yn 'iaith' weledol. Nid yn unig hyn, ond mae'n canolbwyntio ar y ffotograffiaeth ei hun fel gwrthrych gwastraff – yn clymu'r cyfrwng i'r cyd-destun. Sonir Susan Sontag am y cysyniad hyn:

Photographs are, of course, artifacts. But their appeal is that they also seem, in a world littered with photographic relics, to have the status of found objects – unpremeditated slices of the world. Thus, they trade simultaneously on the prestige of art and the magic of the real. They are clouds of fantasy and pellets of information. Photography has become the quintessential art of the affluent, wasteful restless societies... (Sontag, 2002, p. 69)

Mae'r gwyliwr yn synnu i weld lluniau yn cael eu cyflwyno yn y fath ffordd. Gan ffocysu ar natur gorfforol ffotograffiaeth, rhaid derbyn bod ffotograffiau yn wastraff, neu yn geiriau Sontag bod ddelweddu yn bodoli fel *found objects*. Gall y cysylltiad hwn fod yn anodd ei wneud, gan fod ffotograffiaeth heddiw yn cael ei chyfrannu ar-lein yn bennaf – y we ydi'r prif cyfrwng disgwrs newydd. Dull arall o gyfrannu ffotograffiaeth, ac un mwy traddodiadol yw llyfrau – er mwyn cael seibiant o'r domen anhrefnus hwn, gall y gwyliwr ymweld â'r ddau alcof bob ochr o'r gosodiad i weld gwaith Daisuke Yokota mewn ffurf llyfr. Er bod holl waith Yokota (gosodiad a'r llyfrau) yn cael eu harddangos ar wahân i'r brif ystafell, mae'r prif oleuadau wedi pylu a thri sbotleit yn disgleirio ar y gosodiad o'r nenfwd. Mae'r dull hwn o oleuo'r celfwaith yn cynhyrchu cysgodion mwy llym, sy'n ategu'r natur tri dimensiwn y cyfan.

Cyferbyn, yn yr prif ystafell, mae ffotograffiau Keith Arnatt o'i gyfres *Pictures from a Rubbish Tip*. Mewn gyferbyniad i ddelweddu garw Yokota, mae rhain yn edrych yn brydferth, tawel ac ysgafn. Mae ei ddefnydd o ffilm fformat mawr yn trawsnewid ysbwriel i rhywbeth tebyg i baentiadau tirwedd o gyfnod y Renaissance. Trwy y techneg hwn a'i ddefnydd medrus o olau naturiol, mae Arnatt yn gallu creu cymod o fewn llanast y

gwrthrychau. Printiau Arnatt hefyd yw'r maint lleiaf yn yr arddangosfa, sy'n gwahodd y gwylwr i graffu ar y manylion amrywiol a gedwir yn y delweddau hyn – prin bod unrhywun wedi cymryd y fath amser i edrych ar sbwriel!

A piece of mouldy bread looks exquisite, like a Turner Landscape. This is a perfect paradox. His photograph is a *document*, it shows us something. But the way it shows it makes us ask or think about what photography does – at the same time that we are enjoying looking at it. (Bate, 2009, p. 7)

Mae'r paradocs a soniwyd uchod yn ymwneud â thrawsnewidiad gwastraff hyll i rywbeth prydferth trwy gyfrwng ffotograffiaeth. Gellir gwneud cysylltiad â gwaith Yokota yma - er bod y canlyniadau yn hollol wahanol, mae'r gwaith yn gweithredu yn yr un modd, lle mae llanast gwastraff yn cael ei droi'n gelf. Mewn oriel gellir gwerthfawrogi ac ystyried y pwnc o wastraff, yn hytrach na'i fod yn cael ei guddio, o olwg y cyhoedd, mewn tirlenwad.

Ar y wal i'r chwith mae gwaith Zoe Leonard o'i chyfres *Analogues*. Mewn fformat grid, mae hi'n rhoi trefn ar luniau o eitemau gwerthiant cist ceir. Yn naturiol maent yn anniben; mae'r gwrthrychau eclecticidd mewn cyflwr o fflwcs rhwng jync a pethau gwerth chweil. Maen nhw'n cynrychioli atgofion yr rhai sydd wedi eu perchennogi nhw yn y gorffennol. Dywed Leonard am ei chysyniad:

I'm interested in the power objects hold for us. We rely on them to represent our ideas, philosophies, beliefs, and memories. You see this in our relationship to religious objects and relics or souvenirs and snapshots, or even physical evidence presented at trial. (Leonard & Dungan, 2002, p. 79)

Mae'r cyflwyniad hwn o bedwar deg wyth ffotograff yn gorfodi'r gwylwr i gwestiynu'r detholiadau a sut mae rhai gwrthrychau yn rhyngweithio hefo rhai eraill. Mae rhai eitemau wedi cael eu categorioedd, tra bod eraill yn eistedd ymlith pob math o bethau random. Mae'n nhw i gyd yn aros am berchennog newydd, ond mae rhai wedi cael eu tynghedu i'r tirlenwad.


By photographing it, or placing it clearly and carefully in a new context, I try to find a way to let that story become visible. In this way I think my work is less about creating and more about observing. (Leonard and Dungan, 2002, p. 80)

Mae yna thema gylchol yn yr arddangosfa hon, lle mae'r hyn a anwybyddir a'r ansylweddol yn cael eu cynrychiolu. Mae llygaid gwyliadwrs y ffotograffwyr yn dod â'r hyn a anghofir yn fyw. Myn Leonard arddangos ei phwnc mewn ffordd sy'n tynnu sylw, yn lle creu rhywbeth newydd. Ond mae Yokota wedi gwneud hyn trwy creu rhywbeth newydd sy'n edrych yn llythrennol fel ysbwriel. Mae Leonard wedi gwneud hyn trwy symud gwrthrychau jync o'u cyd-destun gwreiddiol a'u harddangos nhw mewn fformat daclus.

Y ffotograffydd olaf ydi Motoyuki Daifu, mae ei waith ar y wal gyferbyn ag *Analogues*. Mae'r lluniau yn dod o'i gyfres *Project Family*, sydd, dros nifer o flynyddoedd wedi dogfennu ei gartref anhrefnus. Chwaraeir rôl bwysig gan aelodau'r teulu yn y gyfres, ond yn yr arddangosfa hon lluniau ystafelloedd yn unig sydd wedi cael eu dewis. Yn absenoldeb y teulu, mae eu gwrthrychau yn dywed stori. Mae yna oergell wedi ei gorlenwi efo llestri plastig hanner gwag, rac sychu yn hongian heb dillad (mae'r dillad wedi taflu dros y llawer), cablau electronig wedi eu tanglo a phob math o bacedu plastic yn eu plith. Gellir gweld William Eggleston ar y teledu, sy'n ddiddorol oherwydd cysylltiadau ardullegol rhwng Eggleston a *Project Family*, er gwaethaf y diffyg symlrwydd yn y lluniau yma. Mae'r ystafelloedd yn llond o feddiannau, sy'n arwain at gyfansoddiadau anrhefnus, nid yn anhebyg i'r lluniau eraill yn yr arddangosfa. Welir yr un anhrefn mewn darluniadau tirlenwad a siopau jync. Rhaid cofio bod teulu Daifu yn byw mewn amgylchiadau cyfyng iawn, sy'n gyffredin iawn mewn ardaloedd trefol yn Japan. Bydd rhai o'r ymwelwyr i'r arddangosfa yn adnabod amodau tebyg yma yng Nghymru.

Yn edrych dros y gwaith i gyd, dyma ddogfeniad o lanast pobl, yn datgelu ein chwant am gonsymsiwn, ein hangen i feddiannu, yr hiwmor yn y pethau sydd yn ein meddiannau; a'r mater difrifol o wastraff byd-eang. Mae ciwrad *Llanast* yn cymalu'r elfennau gwahanol hyn i ffurfio golwg cydnabyddus a cwmpasol dros feddiant a gwastraff.

Cynllun Arddangosfa:



Rhestr o gelfweithiau:

- (1) - Keith Arnatt, from series *Pictures from a Rubbish Tip*, (1988 – 1989), Dimensions: 506 x 608 mm. Available at: <http://www.keitharnatt.com/works/w55.html> (Accessed: 23 March 2025)
- (2) - Motoyuki Daifu, from series *Project Family*, (2007 – 2011), Dimensions: 70 x 95.73 cm*. Available at: <https://motoyukidaifu.blogspot.com/p/project-family.html> (Accessed: 10 March 2025)
- (3) - Zoe Leonard, *Analogue (detail, chapter 25)*, (1998 – 2009), Dimensions: 28 x 28 cm (each part). Available at: <https://www.museoreinasofia.es/en/collection/artwork/analogue-chapter-25> (Accessed: 29 March 2025)
- (4) - Daisuke Yokota, *Matter / Burnout*, (2016), Softcover, 210 x 284 mm, 304 pages. Available at: https://placartphoto.fr/book/829/matter_-_burn_out_signed-daisuke_yokota (Accessed: 2 April 2025)
- (5) - Daisuke Yokota, *Matter (from Foam exhibit)*, Dimensions: A4 (each print)*. Available at: <https://www.foam.org/events/daisuke-yokota> (Accessed: 10 March 2025)

**dim maint gwirioneddol*

Llyfryddiaeth:

Aesthetica Magazine. (2017). *Tactile Photography*. [online] Available at: <https://aestheticamagazine.com/tactile-photography/>. (Accessed: 24 March 2025)

Bate, D. (2009) 'Keith Arnatt 1930-2008', *Photoworks*, (12), pp. 4–7.

Dungan, B. and Leonard, Z. (2002) 'An Interview with Zoe Leonard', *Discourse (Berkeley, Calif.)*, 24(2), pp. 70–85. Available at: <https://doi.org/10.1353/dis.2003.0022>.

Mission Gallery. (2024). *About*. Available at: <https://www.missiongallery.co.uk/about/> (Accessed: 12 March 2025).

Picard, M.H. et al. (2023) *Wastuary: A Bestiary of Waste*. UCL Press.

Postman, N. (1987) *Amusing ourselves to death : public discourse in the age of show business*. Methuen.

Sontag, S. (2002) *On Photography*. London: Penguin.